**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 11 Mehefin 2019, 18.00-19.30

Lleoliad: Ystafell Gynadledda C a D, Tŷ Hywel.

Dr Dai Lloyd AC - Cadeirydd (DL), Tristan Humphreys - Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH)
Yn bresennol: Marcia Spooner, Claire Constantinou, Ian Severn, Dr Jill Swift.

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Graham Philips, Rhun ap Iorwerth AC, Dr Geraint Preest, Henry Wilkins, Sian Evans. |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>a. Diwygio'r cofnodion a'u cymeradwyo<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb eu diwygio.<br><br>b. Materion yn codi<br><br>Cafodd y materion a godwyd eu cynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn. |
| 3 | **Cynllun peilot presgripsiynau Hywel Dda**<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf, ar lafar<br><br>• Bydd Hywel Dda yn parhau i ddarparu cardiau cymhorthdal i'r rhai sy'n rhan o'r cynllun peilot.<br>• Maent yn ymgysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) lleol i weithio ar y cyd ar y posibilrwydd o'i gyflwyno'n ehangach ar draws y bwrdd iechyd eleni.<br>• Sefydlwyd grŵp llywio ac mae'n datblygu cynllun gweithredu, er bod yr amserlenni i'w cadarnhau.<br>• Bydd cynrychiolwyr o dîm cymorth deietegol Hywel Dda yn cyfarfod â Juvela a Coeliac UK ar 21 Mehefin yng Nghaerdydd.<br><br>b. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Mae TH yn dal i aros am yr adroddiad llawn yn dilyn y gwaith o werthuso'r cynllun peilot, er ei fod yn gobeithio y bydd ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae rhai pryderon yn parhau, yn enwedig o ran lefel y cymhorthdal a'r ffaith bod pobl yn awr yn cael eu cynnwys yn y cynllun yn awtomatig oni bai eu bod yn nodi fel arall. Bydd y pryderon hyn yn cael eu codi yn y cyfarfod ar y 21ain a bydd trafodaeth bellach yn cael ei hychwanegu at yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i ysgrifennu at y Prif Fferyllydd, Andrew Evans<br>CAM I'W GYMRYD : TH i gwrdd â Juvela a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. |

| | |
|---|---|
| 4 | **Cynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf, ar lafar (TH)<br><br>Ar ôl cyhoeddi'r Cod drafft, sef 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018', mae pwyslais y Gynghrair Gofal mewn Ysgolion (CISA) wedi symud eto i'r canllawiau ar 'Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd (2017)' (SLHCN). Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r canllawiau hyn yng ngoleuni'r broses o ailwampio'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)/Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), er nad yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol, ac nid oes cynlluniau i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. At hyn, ymddengys nad oes llawer o barodrwydd neu ddiddordeb i ymgysylltu â CISA ynghylch unrhyw faterion o bwys yn y canllawiau. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfle arall i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn ogystal.<br><br>Mae dadansoddiad o bolisïau awdurdodau lleol yn dangos nad oes gan lawer ohonynt bolisïau ar hyn o bryd ac, os oes ganddynt bolisi, gall fod yn anodd dod o hyd iddynt ac maent wedi'u trawsosod i raddau helaeth o ganllawiau SLHCN. Nid ydynt yn tueddu i gael eu diweddaru'n rheolaidd. O gofio hyn, mae CISA yn bwriadu ymgysylltu â thimau Addysg Awdurdodau Lleol gan obeithio cael cyfle i ddylanwadu ar bolisïau awdurdodau lleol a'u gwella, yn ogystal ag ymgysylltu ymhellach yn genedlaethol.<br><br>b. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – gweithgor ar arlwyo ar gyfer gofynion deietegol arbennig<br><br>Dros y 12 mis diwethaf, mae CLlLC wedi bod yn cynnal gweithgorau rhanbarthol rheolaidd gydag arlwywyr ac addysgwyr awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ystyried datblygu canllawiau arfer gorau ar arlwyo ar gyfer gofynion deietegol arbennig mewn ysgolion.<br><br>• Mae canllawiau ac adnoddau yn cael eu cwblhau gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau ysgolion, ALl ac arlwywyr.<br><br>• Mae adroddiad interim yn cael ei gwblhau gan ddod â'r hyn a ddysgwyd o'r holl sesiynau ynghyd.<br><br>• Bydd y gwahaniaeth rhwng yr ysgolion uwchradd a chynradd yn dyngedfennol, yn enwedig i blant â chlefyd seliag, a bydd angen i'r canllawiau ystyried hyn. Mae'r rhan fwyaf o broblemau yn tueddu i godi yn yr ysgolion uwchradd, yn rhannol oherwydd bod yr amgylchedd amser bwyd yn fwy anhrefnus ac mae'n anodd gorfodi pobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros reoli eu deiet yn wyneb pwysau cymdeithasol a phrinder amser.<br><br>• Mae arlwywyr ALl wedi dangos eu bod yn fodlon gwneud mwy, ond nid yw hyn bob amser yn cyrraedd y rheng flaen, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.<br><br>• Mae'r galw cynyddol a'r amrywiaeth yng ngofynion deietegol y disgyblion yn her i arlwywyr sy'n gorfod ysgwyddo'r gost (e.e. mae |

| | |
|---|---|
| | rhai ysgolion wedi gorfod buddsoddi mewn blendiwr gwerth tua £1000 er mwyn darparu ar gyfer y rhai y mae angen addasu ansawdd eu bwydydd).<br><br>• Bydd deietegydd arbennig cenedlaethol yn cael ei recriwtio i barhau i gefnogi gwaith CLlLC ar ddeietau arbennig, i gynorthwyo arlwywyr drwy roi adnoddau iddynt ac i gydlynu'r gweithgorau.<br><br>• Mae problemau'n parhau o ran ymgysylltu ag ysgolion a, drwy hynny, â thimau addysg ALlau. E.e. yn llawer rhy aml, nid yw'r cyfrifoldeb am 'y diwrnod ysgol cyfan' yn cael ei gydnabod. Dylai gwaith SLHCN fynd i'r afael â hyn.<br><br>c Trafodaeth<br><br>Holodd Jill Swift ynghylch y cyngor gorau i'w roi i rieni a gofalwyr sydd am drefnu cymorth yn yr ysgol. Awgrymodd TH y dylai edrych ar y pecynnau i ysgolion gan Coeliac UK a dywedodd fod gan bob plentyn â chlefyd seliag hawl i gael Cynllun Iechyd Unigol, cynllun sy'n nodi sut y bydd yr ysgol yn cynorthwyo'r plentyn i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Dylai hyn gynnwys trefnu i'r rhiant/gofalwr gwrdd â'r pennaeth a holl bersonél perthnasol yr ysgol, gan gynnwys cynrychiolydd o'r tîm arlwyo. |
| 5 | **Darparu bwyd heb glwten mewn ysbytai**<br><br>a. Y cefndir (TH)<br><br>Ers mis Ebrill 2013, mae ' Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai' 2011 yn orfodol mewn ysbytai. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysbyty a Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) sicrhau bod pryd priodol yn cael ei ddarparu i gleifion sydd ar ddeiet therapiwtig.<br><br>Cyflwynodd Rachel Flint ddeiseb gyda 40 o lofnodion yn ymwneud â safonau arlwyo mewn ysbytai, ac arlwyo ar gyfer deiet therapiwtig yn benodol, i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cymru. Cafwyd ymateb gan fyrddau iechyd lleol, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.<br><br>Ym mis Mai 2015, ysgrifennodd y Grŵp Trawsbleidiol at bob BILl mewn perthynas â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn ac yn gofyn yn benodol;<br><br>• A yw anghenion deietegol therapiwtig, gan gynnwys yr angen i gael bwyd heb glwten, yn cael eu hasesu pan fydd cleifion yn cyrraedd yr ysbyty?<br><br>• A yw prydau heb glwten ar gael i gleifion â chlefyd seliag ym mhob ysbyty yn eich bwrdd iechyd?<br><br>• Pa reolaethau sydd ar waith i sicrhau bod bwyd heb glwten yn cael ei baratoi'n ddiogel yn amgylchedd yr ysbyty? |

| | |
|---|---|
| | Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol/yn galonogol ar y cyfan, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad dyma'r darlun ar lawr gwlad. Mae TH wedi clywed yn bersonol am 4 achos gwahanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Ysbyty Prifysgol Bae Abertawe, Ysbyty Athrofaol Cymru) lle na chafodd cleifion asesiad deietegol priodol ac na chawsant bryd o fwyd heb glwten.<br><br>Mae TH wedi siarad â chyswllt yng Nghyngor Iechyd Cymunedol Caerdydd a'r Fro ac wedi cael manylion arweinydd yn y bwrdd iechyd.<br><br>Gofynnodd TH i'r grŵp sut y byddai modd cael gwell syniad o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad.<br><br>b. Trafodaeth<br><br>Nododd Claire Constantinou (CC) fod llawer ar gael ar bapur ac, yn ddamcaniaethol, ni ddylai cleifion gael unrhyw drafferthion. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, nid yw'r broses o sicrhau bod pobl yn cyrraedd yr ysbyty, o drosglwyddo gwybodaeth ac o sicrhau eu bod yn cael y pryd cywir bob amser yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Yn aml, nid yw cleifion yn awyddus i gwyno, ac er y dylai arlwywyr allu ymdopi ac er bod bwydlenni ar gael, mae diffyg hyder a hyfforddiant ar y rheng flaen yn aml. Roedd y grwpiau'n cydnabod bod peth amser wedi mynd heibio ers yr ohebiaeth ddiwethaf â'r byrddau a chytunodd y grwpiau iechyd ei bod yn werth holi am hyn ymhellach.<br><br>Nododd CC adolygiad posibl o 'Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan' i ystyried a yw'r safonau presennol yn dal yn briodol. Gallai hyn fod yn gyfle i ymgysylltu. Mae angen i'r pwyslais symud tuag at ystyried llwybr neu daith y claf er mwyn cael dealltwriaeth well o'r newidiadau y mae angen eu rhoi ar waith. Ychwanegodd Dr Jill Swift (JS) fod y broblem, o'r adborth a gafodd gan gleifion, i'w phriodoli'n bennaf i'r cleifion hynny sy'n cyrraedd yr ysbyty'n annisgwyl a, chan hynny, roedd llai o amser i drafod gofynion deietegol.<br><br>Cafwyd trafodaeth bellach ar y modd y gellid cael darlun cliriach o'r hyn sy'n digwydd i gleifion mewn gwirionedd. Un her yw amharodrwydd cleifion i gwyno ar ôl profiad gwael. Mae'n ddealladwy fod gan lawer ohonynt bethau pwysicach i boeni amdanynt wrth iddynt wella ar ôl salwch ac nid ydynt yn dymuno creu helynt. Awgrymodd TH fod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo i annog aelodau o Coeliac UK i roi adborth i ysbytai a byrddau iechyd os ydynt wedi cael profiad gwael. At hyn, awgrymwyd bod darn o waith ar y gweill i gydweithio â'r Cynghorau Iechyd Cymuned i archwilio profiadau cleifion sy'n gorfod dilyn deiet arbennig. Soniodd TH eto am y posibilrwydd o gynnwys aelodau o CISA yn y gwaith hwn.<br><br>Cadarnhaodd CC fod hyfforddi staff arlwyo a staff nyrsio yn her.<br><br>CAM I'W GYMRYD : TH i siarad ag Arweinydd Polisi Bwyd a Rheolwr Ymchwil Coeliac UK<br>CAM I'W GYMRYD : TH i godi'r mater gyda CISA.<br><br>CAM I'W GYMRYD : TH i ychwanegu hyn at agenda'r cyfarfod nesaf. |
| 6 | **Gwasanaethau endosgopi** |

| | |
|---|---|
| | a. Y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y gwasanaeth Endosgopi (TH/DL)<br><br>Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar wasanaethau endosgopi ym mis Ebrill. Fe'i sbardunwyd gan adroddiad gan Bowel Cancer UK yn amlygu oedi difrifol yng Nghymru cyn cael diagnosis o ganser y coluddyn. Mae prawf sgrinio newydd (FIT) yn cael ei gyflwyno ac mae'n debygol o gynyddu'r galw am wasanaeth endosgopi, sydd eisoes dan bwysau yng Nghymru. Mae gwasanaethau endosgopi a'r nifer arbennig o isel o unedau sydd wedi'u hachredu gan y Cyd-grŵp Cynghori yng Nghymru, yn rhywbeth yr ystyriodd y Grŵp Trawsbleidiol hwn yn 2016.<br><br>Ar ôl cyhoeddi adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Endosgopi yn 2014, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fuddsoddi ymhellach yn y gwasanaeth ac ymrwymodd i gynorthwyo pob uned i sicrhau achrediad gan y Cyd-grŵp Cynghori.<br><br>Serch hynny, mae amseroedd aros yn dal yn broblem. Mae targed o 8 wythnos wedi'i bennu ar gyfer profion endosgopi diagnostig (caiff ei gyfrifo o'r dyddiad y cafodd y claf ei atgyfeirio nes y caiff y profion diagnostig) ac nid yw'r strategaeth genedlaethol wedi'i chyhoeddi eto. Mae'r galw'n cynyddu bob blwyddyn (8-10%) ac nid yw'r gwasanaeth yn gallu ymdopi â'r galw.<br><br>Er y bu gostyngiad mawr rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mawrth 2018, drwy ddefnyddio adnoddau mewnol yn bennaf, mae'r ffigurau hyn wedi amrywio ers hynny a bu cynnydd arbennig yn ystod y misoedd diwethaf. Yn ôl yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n 'adweithiol' gan gynnig atebion 'tymor byr' gan ddibynnu ar y broses gostus o ddefnyddio adnoddau mewnol ac allanol.<br><br>Argymhellodd y pwyllgor fesurau i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â chapasiti ac amseroedd aros mewn ffordd fwy cynaliadwy, a galwodd hefyd ar y Llywodraeth i gyflwyno rhaglen genedlaethol. Gellir darllen yr adroddiad llawn a'r argymhellion yma.<br><br>b. Trafodaeth:<br><br>Soniodd JS fod Hayley Heard bellach wedi cymryd yr awenau fel Pennaeth Gwasanaethau Endosgopi ac y bydd arian ychwanegol sylweddol ar gael i gynorthwyo unedau i sicrhau achrediad y Cyd-grŵp Cynghori.<br><br>CAM I'W GYMRYD : Cytunodd y grŵp i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gan gynnwys sylwadau am y pryderon ynghylch achrediad y Cyd-grŵp Cynghori. |
| 7 | **Prif Swyddog Gweithredol newydd Coeliac UK**<br><br>Mae gan Coeliac UK Brif Swyddog Gweithredol newydd - Hilary Croft. Mae ganddi gefndir ym myd busnes ar ôl gweithio mewn rolau arweiniol yn Capgemini, arweinydd byd-eang ym maes gwasanaethau ymgynghori, technoleg a thrawsnewid digidol, lle bu'n gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, fel Virgin Atlantic, Sky, Lego a'r Post Brenhinol. Mae'n gyfarwydd â'r sector bwyd a diod yn dilyn ei swyddi blaenorol gyda Marks and Spencer, Coca-Cola, Compass Group a World Duty Free Europe. Yn fwy diweddar, fel Prif Weithredwr Prosiect Felix (elusen sy'n helpu i ddarparu bwyd am ddim i |

| | |
|---|---|
| | bobl sy'n dioddef o newyn a thlodi bwyd drwy elusennau ac ysgolion) datblygodd bartneriaethau pwysig gyda chyflenwyr bwyd a chyrff ailddosbarthu i leihau gwastraff bwyd a thlodi bwyd yn Llundain . |
| 8 | **Unrhyw fater arall**<br><br>a. Gohebiaeth BSNA: Mae BSNA wedi ymateb i lythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol ynghylch gohebiaeth flaenorol ac wedi rhoi sylw i sylwadau'r Cadeirydd. |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>6:30pm, 15 Hydref |

Camau gweithredu:

| Camau i'w cymryd | Aelod |
|---|---|
| Cysylltu ynghylch: llythyr at y Gweinidog Iechyd | DL & TH |
| Llythyr at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyda syniadau am wasanaethau endosgopi | DL & TH |
| Gofyn am gyfarfod gyda'r Prif Fferyllydd, Andrew Evans | TH |
| Cyfarfod â BIP Hywel Dda a Juvela | TH |
| Cydgysylltu â Rheolwr Polisi Bwyd ac Arweinydd Ymchwil Coeliac UK ar fwyd ysbyty | TH |
| Ychwanegu bwyd ysbyty i agenda cyfarfod nesaf y GRhG. | TH |
| Codi mater bwyd ysbyty gyda CISA. | TH |
| | |